

Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Esceifiog

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau ac llwyddiannau i ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (hPYD).

Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD - "Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

Fel ysgol mae'r GDD yn cael ei ddefnyddio i:

Meini Prawf	✓	X
Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar.	✓	
Y GDD i'w ddefnyddio i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATH	✓	
Tystiolaeth o olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn;	✓	
Rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu ac addysgu, adborth o safon uchel a metawybyddiaeth;	✓	
Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant;	✓	
O leiaf 60% o GDD ysgolion uwchradd i'w fuddsoddi yn nisgyblion cyfnod allweddol 3;	n/a	
Datblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion	✓	
Sicrhau y cyhoeddir pob datganiad GDD ar wefan ysgol / G6.	✓ Ap ysgol	

Yn ychwanegol i'r uchod rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- gyflogi athrawes 0.3 i dargedu dysgwyr gan ddefnyddio rhaglenni ymyrraeth penodol yn unol â'r Map Darpariaeth gan ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd.

- gyflogi 2 gymhorthydd am 10 awr yr wythnos ar gyfer rhoi cymorth penodol i'r plant hynny sydd wedi eu hadnabod a'u targedu gogyfer a hyrwyddo cynnydd mewn: rhifedd, llythrennedd a hunan hyder yn y Cyfnod Sylfaen.
- Bwrcasu adnoddau / tanysgrifiadau i'w defnyddio gan y grwpiau targed ar gyfer gallu dilyn a chefnogi'r rhaglenni ymyrraeth.

Yn 2019-20 rhoddwyd i Ysgol **Ysgol Esceifiog** ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o:

Grant Datblygu Disgyblion - £11,500

Grant Datblygu Disgyblion Blynnyddoedd Cynnar- £6,300

Cyfanswm: £17,800

Mae **Ysgol Esceifiog** yn defnyddio eu CDY fel dull o gynllunio eu defnydd o'r GDD ac/neu mae cynllun unigol mewn lle sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE.

NEU -

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.

